**Cyfarfod Pwyllgor Cymru y BBC**
**BBC Cymru, Y Sgwâr Canolog, Caerdydd**
**COFNODION**

21ain Chwefror 2024

**EITEMAU BUSNES**

1. Cyflwyniad a chofnodion cyfarfod blaenorol Pwyllgor Cymru
2. Adroddiad Cyfarwyddwr Cymru
3. Cynulleidfaoedd
4. Radio
5. Adroddiad Cyfarwyddwr y Cenhedloedd
6. Cyllid
7. Unrhyw fater arall a chau'r cyfarfod

**YN BRESENNOL**

*Aelodau:*

- Elan Closs Stephens, Cadeirydd Dros Dro y BBC (Cadeirydd)
- Michael Smyth, Cyfarwyddwr Anweithredol
- Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr, Y Cenhedloedd
- Rhuanedd Richards, Cyfarwyddwr, BBC Cymru
- Rhys Evans, Pennaeth Materion Corfforaethol a Pholisi Cyhoeddus, BBC Cymru

*Gyda:*

- Gareth Davies, Uwch Bennaeth Marchnata (ar gyfer eitemau 3 a 4)
- Mark Grinnell, Arweinydd Gweithredol (Ysgrifennydd)
- Dafydd Meredydd, Uwch Bennaeth Comisiynu Cynnwys, Radio Cymru (ar gyfer eitemau 3 a 4)
- Nia Morgan, Uwch Bartner Busnes Cyllid (ar gyfer eitem 6)
- Kate Phillips, Cyfarwyddwr Comisiynu Di-Sgript

- Samantha Sing, Cyfarwyddwr Cyllid, Y Cenhedloedd (Arsylwi)
- Neil Sloan, Rheolwr Olygydd, Radio Wales (ar gyfer eitemau 3 a 4)

**COFNODION PWYLLGOR CYMRU Y BBC**

**Dydd Mercher 21ain Chwefror 2024**

## 1. Cyflwyniad a chofnodion cyfarfod blaenorol Pwyllgor Cymru

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'w chyfarfod olaf fel aelod dros Gymru ac fel Cadeirydd Dros Dro Bwrdd y BBC a rhoddodd ddiolch am ei chyfnod gyda'r BBC.

1.2 Nododd y Cadeirydd y byddai aelodaeth Pwyllgorau'r Cenhedloedd yn y dyfodol yn fater i Gadeirydd newydd Bwrdd y BBC.

1.3 Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor (4ydd Hydref 2023) heb unrhyw wrthdaro newydd.

1.4 Croesawodd y Cadeirydd Gyfarwyddwr Cyllid a Chenhedloedd y BBC i arsylwi yn y cyfarfod fel rhan o'i phroses gynefino yn y BBC.

1.5 Croesawodd y Cadeirydd Gyfarwyddwr Comisiynu y BBC fel gwestai ar ran Adran Gynnwys y BBC.

1.6 Rhoddodd Cyfarwyddwr, Cymru ddiweddariad am ddatblygiadau yn nhîm arweinyddiaeth S4C.

1.7 Roedd cyfweliadau i benodi Cyfarwyddwr Anweithredol newydd, sef yr Aelod dros Gymru, wedi'u cynnal a disgwylir cyhoeddiad. Byddai Michael Smyth, yr Aelod dros Ogledd Iwerddon, yn cynrychioli Cymru dros dro.

## 2. Adroddiad Cyfarwyddwr BBC Cymru

2.1 Clywodd y Pwyllgor fod cyfanswm y ceisiadau gwylio am gynnwys BBC Cymru ar iPlayer yn ystod 2023 wedi cynyddu 50% o un flwyddyn i'r llall ac mae'n gyfartal â'r ffigwr gwylio uchaf erioed yn 2021.

2.2 Nododd y Cyfarwyddwr y gwaith cydgysylltiedig rhwng comisiynu lleol a chydweithwyr rhwydwaith.

2.3 Nododd y Cyfarwyddwr ambell uchafbwynt o ran rhaglenni, gan gynnwys Wolf a Steeltown Murders ym maes cynnwys wedi'i sgriptio a pherfformiad cyfresi fel Paranormal, The Crash Detectives a Dark Land yn y maes di-sgript.

2.4 Cynyddodd cyfanswm y ceisiadau gwrando ar BBC Sounds am gynnwys BBC Cymru yn ystod 2023 49% gyda chynnwys yn cynnwys Crossbow Killer a Death of a Codebreaker ymhlith yr uchafbwyntiau nodedig. Rhoddwyd hwb i'r twf hwn gan seinyddion clyfar o fis Ebrill ar gyfer cynnwys Cymraeg a Saesneg.

2.5 Roedd arlwy BBC Cymru dros gyfnod y Nadolig 2023 yn cynnwys Men Up, sef y rhaglen a gafodd ei gwylio fwyaf dros yr ŵyl.

2.6 Y prosiect drama mawr nesaf ar gyfer BBC Cymru fyddai Lost Boys and Fairies, sydd i'w darlledu yng ngwanwyn 2024.

2.7 Clywodd y Pwyllgor fod ffigurau gwylio gemau rygbi'r Chwe Gwlad yn gryf, gyda 71% o'r boblogaeth yng Nghymru yn gwylio teledu ar y pryd. Byddai hawliau darlledu'r Chwe Gwlad yn mynd i'r farchnad eleni.

2.8 Mae paratoadau ar y gweill ar gyfer rhaglenni etholiad Arweinyddiaeth Llafur Cymru gyda dadl deledu rhwng yr ymgeiswyr sy'n sefyll i fod yn arweinydd nesaf Llafur

Cymru.

2.9 Nid yw incwm digonol yn cael ei ad-ennill oherwydd gostyngiad yn y galw am weithrediadau cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu.

2.10 Byddai gwaith yn cael ei wneud i wella darpariaeth y gynulleidfa a gwerthuso adnoddau o ran allbwn chwaraeon llinol a digidol.

2.11 Daeth blwyddyn Siarad Anabledd BBC Cymru i ben a chyflawnodd ei amcanion, gan gynnwys lansio hyfforddeiaethau anabledd a chyfleoedd am swyddi drwy'r cynllun Extend.

2.12 Byddai BBC Radio Cymru 2 yn lansio fel gwasanaeth llawn ym mis Mawrth 2024 ar ôl derbyn cymeradwyaeth Bwrdd y BBC ac ar ôl cwblhau Prawf Lles y Cyhoedd gyda'r rheoleiddiwr Ofcom.

2.13 Nododd y Cyfarwyddwr yr heriau parhaus i Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC gyda gostyngiad mewn cyllid allanol a chau Neuadd Dewi Sant yng Nghaerdydd. Ymhlith y cyngherddau nodedig yn y dyfodol fydd perfformiad yn Neuadd Brangwyn, Abertawe ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi.

**3. Cynulleidfaoedd**

3.1 Trafododd y Pwyllgor y ffigurau cynulleidfa diweddaraf, gan gynnwys y sgoriau mewnol ar fetrigau didueddrwydd, apêl a dewis yn aml.

3.2 Mae defnydd cynulleidfaoedd o ran gwylio a gwrando a newyddion BBC Cymru yn uwch na chyfartaledd y DU gyda pherfformiad sefydlog ar iPlayer a Sounds.

3.3 Mae cynulleidfaoedd sy'n defnyddio iPlayer bellach yn cael cynnig cynnwys arall a allai fod yn berthnasol.

3.4 Adolygodd y Pwyllgor ugain teitl uchaf BBC Cymru ar y rhwydwaith, gan gynnwys Steeltown Murders, Wolf a Crash Detectives.

**4. Radio**

4.1 Mae ymchwil cynulleidfa diweddaraf RAJAR yn dangos bod gwrando ar radio masnachol yng Nghymru wedi pasio'r BBC am ddau chwarter gwrando yn olynol.

4.2 Bydd lefelau gwrando Radio Wales a Radio Cymru, gyda'i gilydd, yn cyrraedd targedau disgwyliedig y BBC yn ystod 2024.

4.3 Yn 2023, cafwyd newid sylweddol i'r amserlen ar BBC Radio Wales a chafodd yr arlwy newyddion ar yr orsaf radio ei diweddaru gyda mwy o rannu cynnwys ar newyddion teledu yng Nghymru.

4.4 Mae cyrhaeddiad y sioe frecwast ar ei newydd wedd ar BBC Radio Wales wedi cynyddu tra bod nifer yr oriau gwrando wedi gostwng ychydig.

4.5 Mae cynnwys cerddorol Radio Wales wedi'i ddatblygu i fynd i'r afael yn well ag oedran cyfartalog gwrandawyr yr orsaf ynghyd â newidiadau i'r elfennau cynhyrchu gan gynnwys hyfforddiant dilyniannu a chyflwyno.

4.6 Ar Radio Cymru mae'r cyrhaeddiad gwrando wedi gostwng ar y chwarter a'r flwyddyn, ond mae'n parhau i fod yr orsaf radio sy'n denu'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg rhugl.

4.7 Er nad yw gwrando digidol yn gwneud iawn am y colledion mewn gwrando llinol, mae dal cynnydd yn y defnydd o wrando ar-lein.

4.8 Ar hyn o bryd, mae Radio Cymru 2 yn ‘opt’ o Radio Cymru ond bydd yn cynyddu i fod yn wasanaeth llawn o 4 Mawrth pan fydd yr oriau estynedig yn lansio.

**5. Adroddiad Cyfarwyddwr y Cenhedloedd**

5.1 Byddai Pwyllgor Gweithredol y BBC yn parhau i gomisiynu datblygiadau ac arloesi gyda Chynnyrch. Bydd hyn yn gweithio i uno a phersonoleiddio brand y BBC.

5.2 Clywodd y Pwyllgor fod gwaith ar droed i ddatblygu amlygrwydd newyddion ar yr ap a gwelliannau i iPlayer, bydd cynulleidfaoedd yn gallu gweld mwy o amlygrwydd lleol ar gynnwys iPlayer.

5.3 Byddai’r Pwyllgor Gweithredol yn parhau i adolygu’r rhagolwg ariannol ar gyfer cynlluniau cynnwys y BBC.

**6. Cyllid**

6.1 Clywodd y Pwyllgor y rhagolwg ariannol diweddaraf a nododd eitemau allweddol gan gynnwys buddsoddi yn y gwaith o ehangu Radio Cymru 2.

6.2 Mae gwir nifer y bobl a gyflogir gan BBC Cymru wedi gostwng yn dilyn trosglwyddo rolau Technoleg, Archif a Marchnata i’r Grŵp Technoleg a Grŵp y Prif Swyddog Cwsmeriaid ar 1 Ebrill 2023; serch hynny, mae'r rolau hyn yn parhau i gefnogi'r gwasanaeth a ddarperir yng Nghymru yn uniongyrchol a byddent yn cael eu diffinio'n llawn yn yr Adroddiad a’r Cyfrifon Blynyddol.

**7. Unrhyw Fater Arall**

7.1 Diolchodd y Cadeirydd i aelodau’r pwyllgor a phawb a gyfrannodd at y cyfarfod.

7.2 Diolchodd Cyfarwyddwr y Cenhedloedd a Chyfarwyddwr Cymru i’r Cadeirydd am ei goruchwyliaeth, ei chefnogaeth, ei charedigrwydd a’i her yn ei rôl fel Cadeirydd Pwyllgor Cymru a Chadeirydd Dros Dro y BBC.

7.3 Cynhelir y cyfarfod nesaf yng Nghaerdydd ar 4 Mehefin 2024.

**Daeth y cyfarfod i ben.**